Dechreuadau Creadigol
I blant yn y Cyfnod Sylfaen Cymreig

Tyllau, Gofodau a Chuddfannau

Cornerstones
Cwricwlwm

Trosolwg o'r Prosiect

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar Ddatblygiad Corfforol ac yn galluogi plant i archwilio gofodau a mannau o'u cwmpas gan gynnwys bylchau, twneli a chuddfannau mewn lleoliad cyfarwydd ac anghyfarwydd. Gan adeiladu ar bwyntiau dechrau yn ystod y Cam Ymgysylltu, bydd eich arsylwadau yn eich galluogi chi i ddatblygu'r prosiect yn hyblyg gan gymryd i ystyriaeth syniadau a diddordebau eich plant.

Yn ystod y Cam Arloesi dylid annog y plant i feddwl yn greadigol, a chymhwyso'n feirniadol eu profiadau, sgiliau a dealltwriaeth blaenorol wrth greu gofodau dychmygol graddfa fawr gan ddefnyddio bocsys sydd wedi eu hailgylchu.

Yn y prosiect hwn bydd y plant yn dysgu am:

- Gofodau dan do ac yn yr awyr agored yn hyderus
- Gwahanol fathau o ofodau gan gynnwys tyllau, bylchau, cysgodfeydd a thwneli
- Ffyrdd y gallant archwilio gofodau gan ddefnyddio eu cyrff
- Sut i ddilyn cyfarwyddiadau a chyfarwyddyd
- Sut i ddefnyddio gofodau gan ddefnyddio ystod o ddeunyddiau creadigol a modelu
- Sut i symud yn ddiogel a bod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill
- Sut i ddefnyddio sgiliau celf a dylunio i fynegi eu syniadau yn greadigol
- Sut i gofnodi eu syniadau, teimladau a'u profiadau trwy luniadu, gwneud marciau ac ysgrifennu cynnar
- Sut i ddefnyddio camera digidol i gymryd ffotograffau o bethau sy'n ennyn eu diddordeb
- Yr iaith Gymraeg gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion dros ystod o brofiadau yn yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored.

Hawlfraint © 2013 Addysg Cornerstones Cyfyngedig